

OPEN DOORS GCSE LESSON:

HOW DOES THE CHURCH RESPOND TO PERSECUTION?

NOD:	Sicrhau bod y disgyblion yn deall sut mae Cristnogion yn ymateb i erledigaeth a sut mae Eglwys yn y Deyrnas Unedig yn cefnogi Cristnogion ym mhedwar ban y byd sy'n wynebu erledigaeth.
AQA:	Bydd y wers hon yn bodloni gofynion gwahanol gwricwla fel a ganlyn:
EDEXCEL:	Sut mae eglwys Cristnogol yn ymateb i erledigaeth.
OCR:	Yr Eglwys fel Corff Crist: ffyrdd o ddeall arwyddocâd yr Eglwys fel Corff Crist a Phobl Dduw: natur yr Eglwys fel Corff Crist, yn cynnwys Rhufeiniaid 12:4-6 ac 1 Corinthiaid 12.
EDUQAS CBAC:	Sut y caiff yr Eglwys ei herlid yn yr 21ain ganrif. Cefnogi eglwys sy'n cael ei herlid.
	Erlid Cristnogion – ddoe a heddiw.

DISGWYLIADAU'R WERS

P'un bynnag a ydych yn gyfarwydd ag addysgu ynteu'n newydd i waith mewn ysgol, mae'n bwysig pennu disgwyliadau ar gyfer eich gwers o'r dechrau. Mae hyn yn arbennig o hanfodol wrth siarad am ffydd gan y gallai fod yn fater emosiynol i rai.

Efallai yr hoffech ddechrau gyda chyflwyniad fel yr un isod er mwyn nodi'n glir beth yr ydych yn ei ddisgwyl gan y disgyblion.

Helo, _____ yw fy enw i. Heddiw, fel rhan o ofynion eich TGAU rydyn ni'n mynd i siarad am erledigaeth grefyddol.

Nawr, rwy'n gwybod y gall siarad am ffydd fod yn fater sensitif oherwydd, yn aml, bydd gan bawb ohonom brofiadau a safbwyntiau gwahanol. Fel rhan o'n sesiwn ni heddiw byddwn yn gofyn am eich sylwadau chi ac yn gofyn i chi i wneud rhywfaint o waith gyda phartner ac mewn grŵp.

Ar y dechrau'n deg, rydw i'n mynd i ddweud yn glir iawn beth yw disgwyliadau'r sesiwn yma. Rwy'n disgwyl i bob aelod o'r dosbarth:

- Wrando ar ei gilydd
- Parchu ei gilydd – hyd yn oed os oes gennych chi farn wahanol
- Cymryd rhan weithredol yn y sesiwn – cymryd rhan ym mhob elfen



GWEITHGAREDD I DDECHRAU

RHESTR GWYLIO'R BYD / 5 MUNUD

Os nad ydych eisoes wedi ei wyllo mewn gwers arall, gwyliwch fideo **Rhestr Gwyllo'r Byd Open Doors 2021 – Y 10 Uchaf***

Cyflwynwch y cysyniad o erledigaeth – gofynnwch i'ch dosbarth weithio mewn parau a meddwl am gynifer o wahanol ffyrdd ag sy'n bosib y gall pobl gael eu herlid am arddel eu crefydd.

Gofynnwch am ymateb i weld beth mae'ch disgyblion yn ei wybod eisoes. Os na fyddant wedi sôn amdanynt, efallai yr hoffech gyfeirio at y rhestr hon:

- Perygl o gael eich herwgipio (kidnap) / herwydio (abduct)
- Cael eich arestio/carcharu
- Gelyniaeth/aflonyddu gan eich teulu/cymdogion
- Marwolaeth
- Cael eich anfon i wersyll llafur
- Dim hawl mynd â'ch plant i'r eglwys/capel
- Trais – trais corfforol neu ymosodiadau bomio
- Dim hawl rhoi'r gorau i'ch crefydd
- Eich atal rhag cael addysg, gwaith, help cyfreithiol, cyfleoedd
- Cael eich hacio ar y rhyngrwyd

Esboniwch mai'ch bwriad chi heddiw yw canolbwyntio ar brofiad Cristnogion ledled y byd sy'n cael eu herlid.

GWEITHGAREDD 1

BETH MAE'R BEIBL YN EI DDYSGU I GRISTNOGION AM ERLEDIGAETH? / 15 MUNUD

Gwyliwch fideo Rohan

Ewch ati mewn parau i ateb y cwestiwn: Beth oedd yn sefyll allan i chi wrth wyllo'r fideo?

Ar ddiwedd y fideo, mae Rohan yn dechrau dyfynnu adnod o'r Beibl sy'n ei annog i ddal ati er ei fod yn wynebu erledigaeth. Rydym yn mynd i edrych ar adnoddau eraill o'r Beibl sy'n sôn am erledigaeth i weld sut mae'r Beibl yn dysgu Cristnogion i ymateb.

Rhowch un o'r dyfyniadau o'r Beibl i bob pâr i'w darllen: Gofynnwch iddyn nhw ddarllen y dyfyniad a cheisio ateb y cwestiwn – **Beth mae hyn yn ei ddysgu i Gristnogion am erledigaeth?**

Gofynnwch i'r parau ymateb a chofiwch drafod pob dyfyniad. Gofynnwch i'r disgyblion nodi ar y daflen waith beth maent wedi'i ddysgu gyda'i gilydd.

ERLEDIGAETH DDOE A HEDDIW / 10 MUNUD

Nid rhywbeth newydd yw erledigaeth; dewch i ni weld faint rydych chi yn ei wybod am hanes erlid Cristnogion

Cwis

1. Pryd dechreuwyd erlid Cristnogion?

- a. Pan oedd Iesu'n fyw
- b. Pan ddechreuwyd sefydlu eglwysi
- c. Pan ddaeth crefyddau eraill i fod

Cafodd Iesu ei erlid. Doedd arweinwyr crefyddol ei oes ddim yn hoffi'r ffordd roedd ei neges ef yn herio'u dysgeidiaeth nhw. Serch hynny, doedden nhw ddim yn gallu gweld dim o'i le â'r hyn roedd Iesu'n ei wneud nac yn ei ddweud. Cafodd ei arestio ar gyhuddiadau ffug ac roedd Peilat, y llywodraethwr ar y pryd, yn awyddus i'w ryddhau. Dim ond oherwydd i'r dyrfa ddechrau gweiddi a mynnu ei fod yn cael ei ladd y cafodd Iesu ei groeshoelio.

2. Pwy oedd y Cristnogion cyntaf i gael eu carcharu

- a. Iago a Jwdas
- b. Tomos a Barnabas
- c. Pedr ac Ioan

Cafodd Pedr ac Ioan eu harestio oherwydd iddyn nhw weddio dros ddyn cloff a gafodd ei iacháu. Doedd yr arweinwyr crefyddol ddim yn hoffi eu bod nhw'n siarad am Iesu, gan honni ei fod wedi atgyfodi, ac fe ddwedon nhw wrthyn nhw am stopio. Cafodd Pedr ac Ioan eu rhyddhau ond wnaethon nhw ddim stopio sôn am Iesu.

3. Pam ddechreuodd yr Ymerawdwr Diocletian erlid Cristnogion?

- a. Oherwydd eu bod nhw'n gwrthod addoli'r Ymerawdwr a Rhufain
- b. Oherwydd eu bod nhw'n gwrthod talu trethi
- c. Oherwydd eu bod nhw'n gyfoethog

Dechreuwyd erlid y Cristnogion cynnar gan fod yr Ymerawdwr Diocletian yn teimlo o dan fygythiad am nad oedd y Cristnogion yn addoli'r duwiau traddodiadol. Roedd yn eu beio am achosi plâu, am golli rhyfeloedd ac am achosi gwrthryfeloedd. Roedd y Cristnogion yn cael eu herlid mewn ffyrdd creulon iawn. Roedd hyn yn cynnwys cael eu llosgi'n fyw, eu harteithio a'u lladd fel adloniant yng ngornestau'r Gladiatoriaid. Roedd Cristnogion yn cael eu dysgu i dalu trethi a, gan amlaf, roedden nhw'n dlawd, nid yn gyfoethog.

4. Faint o Gristnogion sy'n cael eu herlid heddiw?

- a. 320 miliwn
- b. 340 miliwn
- c. 360 miliwn

Mae rhagor o Gristnogion nag erioed yn cael eu herlid heddiw. Mae erlid Cristnogion yn cynyddu ac yn gwaethgu.

5. Mae Rohan (o'r fideo) yn byw yn India. Ceisiwch ddyfalu ym mha safle y mae India ar Restr Gwyllo'r Byd Open Doors (rhestr o'r llefydd mwyaf peryglus i fod yn Gristion)?

- a. 6
- b. 11
- c. 16

Mae'r sefyllfa o ran erlid Cristnogion wedi gwaethgu'n ddifrifol yn India yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Mae llawer o bobl yn credu ei bod yn rhaid i bob gwir Indiad fod yn Hindŵ. Felly, os ydych chi'n gwrthod Hindŵaeth, dydych chi ddim yn Indiad go iawn a gallech gael eich targedu.



GWEITHGAREDD 3

PAM Y MAE EGLWYSI YN Y DEYRNAS UNEDIG YN CEFNOGI CRISTNOGION SY'N CAEL EU HERLID? / 10 MUNUD

Beth yw barn Eglwysi yma yn y Deyrnas Unedig am erledigaeth ledled y byd a sut maen nhw'n ymateb iddo?

ESBONIAID

Efallai yr hoffech ddarllen 1 Corinthiaid 12:12-27 i'r dosbarth.

Yn y Beibl, mae'r Apostol Paul yn defnyddio darlun o'r corff i ddangos bod pob Cristion yn rhan o un corff er bod pawb yn edrych yn wahanol a bod ganddynt wahanol sgiliau. Roedd Paul yn sôn am gysylltiad rhwng Cristnogion – er bod eglwysi'n edrych yn wahanol i'w gilydd a bod gan bobl brofiadau gwahanol, mae pawb sy'n dilyn Iesu yn rhan o'r un corff ac Iesu yw pen y corff hwnnw.

ENGHRAIFFT FYW

Gofynnwch am wirfoddolwr: Gofynnwch iddyn nhw actio beth sy'n digwydd os ydyn nhw'n taro bawd eu troed yn erbyn rywbeth. (Gobeithio y byddan nhw'n gafeael yn y droed, yn hopian a'n gweiddi). Gan amlaf, os ydych yn brifo bawd eich troed, mae'ch corff i gyd yn ymateb trwy dynhau'ch cyhyrau/gweiddi/hopian – does gennych chi ddim dewis! Os yw un rhan o'ch corff yn brifo, mae'r corff cyfan yn ymateb.

Felly, os awn yn ôl at y darlun o'r eglwys fyd-eang fel corff, mae hyn yn golygu bod cysylltiad rhwng Cristnogion ym mhob rhan o'r y byd. Os yw un rhan o'ch corff yn brifo, mae'n effeithio ar weddill y corff. Meddylwch – os ydych chi'n torri'ch troed, efallai y byddwch yn gweiddi mewn poen; wedyn, mae mwy o bwysau ar eich breichiau/dwylo os ydych yn defnyddio baglau – mae'ch corff cyfan yn ei deimlo.

Mae'r un peth yn wir am gorff Crist – os yw un rhan o'r eglwys yn dioddef, Cristnogion Irac efallai, yna mae'r eglwys fyd-eang yn teimlo hynny. Mae cyfrifoldeb ar Gristnogion sydd â rhyddid i gefnogi rhai sydd wedi colli eu rhyddid. Os oes un rhan o'r corff yn wan, mae'r corff i gyd yn cael ei wanhau. Os oes un rhan o'r corff yn gryf, mae'r corff i gyd yn cael ei gryfhau.

Os oes amser, dangoswch **fideo Edward a Rana o Syria**. Mae'r fideo hwn yn dangos bod Cristnogion yn Syria yn gallu aros yno a bod yn newyddion da yn eu cymuned diolch i gefnogaeth Cristnogion ledled y byd.

Ar ôl gwyllo'r fideo hwn – sut roedd yr eglwys yn gweithredu fel corff?

SUT MAE EGLWYSI YN Y DEYRNAS UNEDIG YN CEFNOGI CRISTNOGION SY'N CAEL EU HERLID? / 15 MUNUD

Ewch ati gyda'r un sy'n eistedd yn eich ymyl i feddwl am dair ffordd y mae Cristnogion yn y Deyrnas Unedig yn cefnogi Cristnogion sy'n cael eu herlid.

GWEDDÏO

Mae Cristnogion yn credu bod gweddi'n gallu newid pethau. Gall gweddi dros Gristnogion sydd wedi'u carcharu neu sydd mewn perygl o wynebu ymosodiad neu o gael eu harestio newid eu sefyllfa.

Rai blynyddoedd yn ôl yn Fietnam, daeth yr awdurdodau ar gyrch i saith o brif eglwysi un o'r rhanbarthau. Carcharwyd yr arweinwyr a chafodd yr adeiladau eu cloi â chadwyni. Roedd cynulleidfaoedd yr eglwysi hyn yn ofni eu bod yn mynd i gael eu harestio ac yn poeni na fyddent yn gallu dal ati i addoli Duw. Daethant at ei gilydd mewn lle oedd daith 5 awr i ffwrdd, ynghanol y jynghl, lle roedd yn ddiogel gweddi. Yn ogystal, roeddent wedi gofyn i'w partneriaid ledled y byd weddi drostynt. Felly, roedd 400 o bobl yn y jynghl a Christnogion ym mhedwar ban byd yn gweddi o byddai Duw yn rhyddhau arweinwyr yr eglwysi ac yn ei gwneud hi'n ddiogel iddyn nhw arddel eu ffydd. Drannoeth, rhyddhawyd yr holl arweinwyr heb gyhuddiad a chafodd yr adeiladau i gyd eu datgloi. Llwyddodd yr eglwysi i aildechrau cyfarfod gan gredu'n gryf fod eu gweddiâu wedi cael eu hateb.

CODI ARIAN

Ers rhai blynyddoedd, bu Cristnogion yn y Deyrnas Unedig yn codi arian, trwy Open Doors, i gefnogi Cristnogion sy'n cael eu herlid yn Irac a Syria (a llawer o wledydd eraill). Mae IS wedi dinistrio eiddo a bywoliaethau llawer o Gristnogion yn y mannau hyn. Mewn partneriaeth ag eglwysi lleol mae Open Doors wedi sefydlu Canolfannau Gobaith, lle gall Cristnogion dderbyn pecynnau bywd, cwnsela ar ôl trawma, hyfforddiant sgiliau a micro-fenthyciadau. Defnyddiwyd yr arian i ailadeiladu tai, i helpu pobl i ddechrau busnesau, ac i gynnal rhai sy'n methu gweithio oherwydd oedran neu anabledd. Mae hyn wedi galluogi Cristnogion i aros yn y gwledydd hynny yn hytrach na mynd yn ffoaduriaid i rywle arall.

CODI LLAIS AR RAN RHAI SY'N CAEL EU HERLID

Gallai hyn olygu ysgrifennu at Aelodau Seneddol yn y Deyrnas Unedig i goli llais dros bobl sydd wedi'u carcharu'n annheg. Cafwyd enghraifft o hyn pan gafodd menyw o'r enw Asia Bibi ei charcharu ym Mhacistan. Asia oedd y fenyw gyntaf ym Mhacistan i gael ei dedfrydu i farwolaeth am gabledd.

Un diwrnod yn 2009, aeth Asia i nôl dŵr o ffynnon y pentref. Ceisiodd criw o fenywod Mwslimaidd ei hel oddi yno gan fynnu y byddai hi'n gwneud dŵr y ffynnon yn 'aflan'. Ymateb Asia oedd dweud bod Iesu wedi'i hachub hi a gofynnodd iddynt, "Beth mae'ch proffwyd chi wedi ei wneud i chi?" Oherwydd y cwestiwn hwn, cafodd ei dedfrydu i farwolaeth am gabledd yn 2010 a bu yn y carchar tan fis Tachwedd 2018. Gofynnwyd i Gristnogion yn y Deyrnas Unedig ysgrifennu at eu Haelod Seneddol i roi pwysau ar lywodraeth Pacistan i'w rhyddhau. Nid achos Asia yw'r unig un. Mae deddfau cabledd Pacistan yn cael eu camddefnyddio'n aml i dargedu lleiafrifoedd, yn cynnwys Cristnogion.

ANNOG CRISTNOGION TRWY YSGRIFENNU ATYNT

Un ffordd y gall Cristnogion gadw mewn cysylltiad â Christnogion eraill ledled y byd yw trwy ysgrifennu llythyrau i galonogi pobl sydd yn y carchar neu sy'n wynebu anawsterau mawr.

YMWELD Â NHW

Yn aml, mae gan eglwysi yn y Deyrnas Unedig gysylltiad ag eglwys mewn gwlad arall. Efallai y bydd cyfleoedd i ymweld â'r eglwys honno os nad yw'n rhy beryglus.

ADOLYGU**5 MUNUD**

- Dewch â'r sesiwn i ben trwy atgoffa'r disgyblion bod erledigaeth yn effeithio ar Gristnogion mewn gwahanol ffyrdd.
- Gofynnwch i bob disgybl ysgrifennu un peth y mae'r Beibl yn ei ddysgu am erledigaeth ac un ffordd y mae'r eglwys yn y Deyrnas Unedig yn gweithredu fel rhan o gorff Crist trwy gefnogi Cristnogion sy'n cael eu herlid.

ADNODAU AM ERLEDIGAETH YN Y BEIBL:

ESBONIWCH BETH MAE'R ADNODAU HYN YN EI DDYSGU I GRISTNOGION AM ERLEDIGAETH

MATHEW 5: 10-12

"Mae'r rhai sy'n dioddef erledigaeth am eu bod yn byw'n gyfiawn wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau. Pan fydd pobl yn eich sarhau chi, a'ch erlid, ac yn dweud pethau drwg amdanoch chi am eich bod yn perthyn i mi, dych chi wedi'ch bendithio'n fawr! Byddwch yn llawen! Mwynhewch er gwaetha'r cwbl, achos mae gan Dduw yn y nefoedd wobr fawr i chi. Cofiwch fod y proffwydi oedd yn byw ers talwm wedi cael eu herlid yn union yr un fath!"

MATHEW 5: 43-44

[Dyweddodd Iesu] "Dych chi wedi clywed i hyn gael ei ddweud: 'Rwyt i garu dy gymydog (ac i gasáu dy elyn).' Ond dw i'n dweud wrthoch chi: Carwch eich gelynion a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid chi!"

IOAN 15:18-20

[Dyweddodd Iesu] "Os ydy'r byd yn eich casáu chi, cofiwch bob amser ei fod wedi fy nghasáu i gyntaf. Tasech chi'n perthyn i'r byd, byddai'r byd yn eich caru chi. Ond dych chi ddim yn perthyn i'r byd, achos dw i wedi'ch dewis chi allan o'r byd, felly mae'r byd yn eich casáu chi. Cofiwch beth ddwedais i wrthoch chi: 'Dydy caethwas ddim uwchlaw ei feistr'. Os ydyn nhw wedi fy erlid i, byddan nhw'n eich erlid chithau hefyd. Os ydyn nhw wedi gwneud beth dw i'n ddweud wrthyn nhw, byddan nhw'n gwneud beth dych chi'n ei ddweud."

IAGO 1:2-4

"Frodyr a chwiorydd, pan fyddwch chi'n wynebu pob math o dreialon, ystyriwch hynny'n rheswm i fod yn llawen. Achos pan mae'ch ffydd chi'n cael ei brofi mae hynny'n meithrin y gallu i ddal ati a pheidio rhoi'r gorau iddi. Ac mae dal ati drwy'r cwbl yn eich gwneud chi'n gryf ac aeddfed – yn barod ar gyfer unrhyw beth!"

2 CORINTHIAID 12: 9-10

"...ond ei ateb oedd, "Mae fy haelioni i'n hen ddigon i ti. Mae fy nerth i'n gweithio orau mewn gwendid." Felly dw i'n hapus iawn i frolio am beth sy'n dangos fy mod i'n wan, er mwyn i nerth y Meseia ddal i weithio trwof fi. Ydw, dw i'n falch fy mod i'n wan, yn cael fy sarhau, yn cael amser caled, yn cael fy erlid, ac weithiau'n anobeithio, er mwyn y Meseia. Achos pan dw i'n wan, mae gen i nerth go iawn."

RHUFEINIAID 8: 35-39

"Oes yna rywbeth sy'n gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad y Meseia? Nac oes, dim byd! Dydy poen ddim yn gallu, na dioddefaint, cael ein herlid, newyn na noethni, peryglon na hyd yn oed cael ein lladd! Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud:

'O'th achos di dŷn ni'n wynebu marwolaeth drwy'r amser; Dŷn ni fel defaid ar eu ffordd i'r lladd-dy.'

Ond dŷn ni'n concro'r cwbl i gyd, a mwy, am fod y Meseia wedi'n caru ni. Dw i'n hollol sicr fod dim byd yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth ei gariad e. Dydy marwolaeth ddim yn gallu, na'r un profiad gawn ni mewn bywyd chwaith. Dydy angylion ddim yn gallu, na phwerau ysbrydol drwg. Dim byd yn y presennol nac yn y dyfodol. Dim byd ym mhellteroedd eitha'r gofod nac yn nyfnderoedd y ddaear! Na, does dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu!"